

Diweddariad Covid-19 – Diweddaraf ynglŷn â Chynllun Cadw Swyddi Coronafeirws

Gwybodaeth yn gywir am 09:00am ar 17.04.2020

Mae'r Cynllun Cadw Swyddi wedi esblygu dros yr wythnosau diwethaf ac mae ei gwmpas wedi ehangu'n sylweddol. Fodd bynnag, mae'n werth amlygu mai bwriad y cynllun yw cefnogi'r busnesau hynny sydd wedi cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan Covid-19 ac i ddiogelu'r rhai a fyddai wedi cael eu diswyddo fel arall. Yn ogystal, mae cyfranogiad yn y cynllun yn ôl disgrisiwn y cyflogwr.

Prif bwyntiau

- Lluniwyd y cynllun i gefnogi'r busnesau hynny sydd wedi cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan Covid-19
- Gellir newid statws gweithwyr i weithwyr ffyrlo, a byddant yn gymwys i dderbyn 80% o'u cyflog arferol (hyd at uchafswm o £2,500 y mis). Gall cyflogwyr adhawlio cyflogau hyd at yr uchafswm.
- Mae'r canllawiau wedi cael eu diweddaru i gynnwys categorïau ychwanegol o weithwyr
- Disgwylir i borth ar-lein CThEM fynd yn fyw ym mis Ebrill

Beth yw'r cynllun?

- Mae pob busnes yn gymwys
- Ad-daliad o 80% (hyd at uchafswm o £2,500 y mis gros) o gostau cyflogi gweithwyr; gan gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol a phensiwn ar gyfer y gweithwyr
- Gellir dyddio'r taliadau'n ôl i 1 Mawrth
- Disgwylir i'r cynllun fod yn weithredol am dri mis, ond gall hynny gael ei ymestyn
- Mae angen i weithwyr fod ar y gyflogres PAYE ar 19 Mawrth 2020
- Gellir defnyddio'r cynllun ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod
- Mae'n rhaid i weithwyr gael eu rhoi ar ffyrlo am isafswm o dair wythnos
- Mae'n bosibl i weithwyr ddod i mewn ag allan o'r cynllun ffyrlo, ar yr amod bod y cyfnod o dair wythnos yn cael ei gwblhau ar bob achlysur

Pwy sy'n gallu cael ei roi ar ffyrlo?

- Gall unrhyw weithiwr; boed yn gweithio llawn amser, rhan amser; i asiantaeth neu ar gytundebau hyblyg neu ddim oriau gael ei roi ar ffyrlo
- Ar gyfer gweithwyr gyda mwy nag un swydd, mae'r uchafswm o £2,500 yn berthnasol ar i bob cyflogwr ar wahân
- Gellir rhoi prentisiaid ar ffyrlo a pharhau i'w hyfforddi; bydd angen i chi roi arian tuag at eu cyflog i adlewyrchu'r isafswm cyflog priodol am y cyfnod y byddant yn astudio
- Gellir rhoi gwladolion tramor ar ffyrlo, ac mae gweithwyr gyda fisa o bob categori yn cael eu cynnwys
- Gellir rhoi gweithwyr sydd ar hyn o bryd ar gyfnod o salwch hirdymor ar ffyrlo, ar yr amod bod rhesymau busnes dros wneud hynny yn ogystal



www.llyw.cymru/cyswlltffermio



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813

- Gellir rhoi'r rhai sy'n gwarchod yn unol â chanllawiau iechyd cyhoeddus ar ffyrlo, fodd bynnag, penderfyniad y cyflogwr yw hwn
- Mae'n bosibl rhoi'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofal o ganlyniad i Covid-19 ar ffyrlo, er enghraifft gweithwyr gyda phlant
- Gall Cyfarwyddwyr Cwmnïau Cyfyngedig fynd ar ffyrlo os maent yn cael eu cyflogi drwy PAYE. Ni allant barhau i gwblhau gwaith ar ran y cwmni, ond mae'n bosibl iddynt gyflawni goblygiadau statudol e.e. cyflwyno cyfrifon

Beth sydd angen i chi ei wneud?

- Hysbysu'r gweithwyr sydd wedi'u heffeithio bod eu statws wedi newid i 'weithwyr ar ffyrlo'
- Gwirio eu cytundebau cyflogaeth i weld a oes telerau penodol yn berthnasol o ran newid statws cyflogaeth
- Cyflwyno gwybodaeth am y gweithwyr sydd wedi cael eu gwneud yn 'weithwyr ar ffyrlo' i CThEM, gan gynnwys gwybodaeth am eu henillion (pan fo'r wybodaeth ar gael)
- Gallech chi dalu'r gwahaniaeth rhwng yr 80% a'r gyfradd arferol, ond mae hynny yn ôl eich disgrisiwn chi
- Ni all gweithwyr gwblhau unrhyw waith ar ran y cwmni sy'n cynhyrchu refeniw, er mae'n bosibl iddynt gwblhau hyfforddiant ar yr amod eu bod yn cael tâl os mae'r 80% yn golygu nad ydynt yn cyrraedd yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer yr oriau hyfforddi

Sut alla i wneud hawliad?

- Mae CThEM yn y broses o greu porth ar-lein
- Disgwylir i'r porth fynd yn fyw erbyn diwedd Ebrill
- Gellir cyflwyno hawliadau bob tair wythnos ar gyfer gweithwyr ffyrlo

*I gael trafodaeth bellach neu gymorth i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych, cysylltwch â'r Ymgynghorydd Cymorth ar consultantsupport@kiteconsulting.com neu **01902 851007 / 07542 403225***

Paratowyd gan Kite Consulting.



www.llyw.cymru/cyswlltffermio



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813